**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

**24 Mawrth 2023**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:**

**Yr Aelodau:** Cyng. Dyfrig Siencyn (Cadeirydd, Cyngor Gwynedd), Cyng. Mark Pritchard (Is-gadeirydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Cyng. Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Cyng. Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cyng. Paul Johnson (yn dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir y Fflint).

**Swyddogion:** Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol y Cydbwyllgor), Dewi Morgan (Swyddog Adran 151), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp y CBC), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Emyr Williams (Parc Cenedlaethol Eryri) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth - Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwyr Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Ian B. Roberts (Cyngor Sir y Fflint) ac Annwen Hughes (Parc Cenedlaethol Eryri).

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 24 Mawrth 2023 |

---

**PWNC**
Eitem 5: YMESTYN CYFNOD SECONDIAD I RÔL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC

---

**PENDERFYNIAD:**

Cytunwyd i ymestyn cyfnod secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru i rôl Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd hyd at ddiwedd Medi, 2023.

---

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 5 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 24 Mawrth 2023 |

**PWNC**
Eitem 6: ADNODDAU I SWYDDOGAETHAU STATUDOL

**PENDERFYNIAD:**

Derbyniwyd cymeradwyaeth ar gyfer model cyflawni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer swyddogaethau statudol.

Cymeradwywyd y strwythur staffio cychwynnol a nodir yn Atodiad 2 o’r adroddiad.

Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr dros dro y CBC, mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd, ac yn unol â Datganiad Polisi Tâl y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac mewn perthynas â’r swyddi Cynllunio a Thrafnidiaeth i:

- Gwblhau'r Swydd Ddisgrifiadau angenrheidiol ar gyfer y swyddi
- Gadarnhau'r raddfa gyflog sydd wedi'i harfarnu
- Hysbysebu a recriwtio i'r swyddi

Cymeradwywyd trosglwyddo'r gyllideb staffio trafnidiaeth sy'n weddill sy'n cyfateb i 1 x Swyddog Trafnidiaeth FTE a gymeradwywyd ym mis Ionawr i gostau sy'n gysylltiedig â gofynion ymgynghorol y broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol.

Cytunwyd i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig dderbyn papur yn y dyfodol i argymell opsiwn a ffafrir er mwyn cyflawni swyddogaeth 'Llesiant Economaidd', a fydd yn cynnwys yr opsiwn i drosglwyddo staff sy'n gysylltiedig â Swyddfa Portffolio gyfredol Uchelgais Gogledd Cymru.

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 5 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac unrhyw fater protocol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig**
**(Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 24 Mawrth 2023 |

**PWNC**
Eitem 7: DATGANIAD POLISI TÂL 2023/24

**PENDERFYNIAD:**

Cytunwyd i fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2023/24.

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 5 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac unrhyw fater protocol.